Llwybr Hanes Pont-y-clun-Meisgyn-Talygarn

Cychwyn ym maes parcio Gorsaf Reilffordd Pont-y-clun



Mae'r llwybr hwn tua 5.2km o hyd ar dir tonnog.

Mae'r llwybr hanes hwn yn cychwyn ym maes parcio'r orsaf reilffordd ym Mhontyclun. Agorwyd yr orsaf hon, a oedd yn gatalydd ar gyfer twf Pontyclun, yn 1850. Dyma bwynt Hanes cyntaf y llwybr.

Ewch i fyny'r llwybr tuag at y brif ffordd gan basio 3 thafarn hanesyddol, ymlaen trwy'r maes parcio gyferbyn a heibio Clwb Rygbi Pontyclun. Dilynwch y llwybr ger y caeau rygbi ac allan gan droi i'r dde i fyny'r bryn. Ewch i'r dde wrth gyffordd T gan ddilyn y ffordd am tua hanner milltir cyn mynd i'r dde i mewn i Feisgyn wrth y gylchfan fach.

Mae canol Meisgyn yn gartref i'n hail bwynt hanes wrth yr arwydd Hanes yng nghanol y pentref.

Wrth symud i lawr Heol Hensol ewch dros y rheilffordd heibio Chapel House a Melin Meisgyn. Daliwch ati ar y ffordd hon ac ychydig ar ôl i chi fynd o dan yr M4 trowch i'r dde ar y llwybr troed sy'n dilyn y lôn sy'n mynd yn gyfochrog â'r M4.

Ar ben y llethr wrth iddo droi'n sydyn i'r chwith, croeswch i'r cae o'ch blaen a dilynwch hyn i lawr nes bod y llwybr yn hollti. Cymerwch y llwybr hanner chwith i lawr drwy'r coed. Ar waelod y bryn trowch i'r dde a dilynwch y llwybr i mewn i'r coed trwy giât a thros y nant.

Dilynwch y llwybr i fyny'r bryn gan ddringo dros y gamfa garreg, a throi i'r dde i'r lôn ar y brig. Ewch heibio ychydig o dai a Talygarn Mews a daliwch ati nes i chi gyrraedd Tŷ Talygarn, sef ein trydydd pwynt hanes.

Cymerwch y ffordd i'r dde am tua 30m a dilynwch y llwybr troed i'r chwith i'r cae. Cadwch ar y llwybr hwn drwy'r caeau heibio'r cyrtiau tenis ac ymlaen tuag at lle mae'r llwybr yn ymuno â'r brif ffordd ym mhentre Talygarn.

Os oes gennych amser, bydd gwyriad byr i'r chwith a dilyn y llwybr troed i'r dde yn mynd â chi i eglwys Santes Anne, gan ddychwelyd yma i barhau.

Mae ein llwybr bellach yn mynd i'r dde, i lawr trwy Dalygarn a Brynsadler, yn croesi Afon Trelái ger CPD Pontyclun, heibio i Felin Brynsadler ac i fyny at y Gofeb Ryfel ym Mhontyclun.

Y gofeb ryfel hon yw'r pwynt hanes olaf ar y llwybr.

Pan fyddwch wedi darllen am y gofeb ryfel ewch tuag at Bontyclun gan fynd heibio i adeilad y Seiri Rhyddion i'r ardal siopa gyda'i fariau, caffis a siopau. Efallai y byddwch yn sylwi ar y capeli sydd wedi'u haddasu ac ystyried hanes crefyddol Pontyclun.

Ewch drwy'r dref gan groesi'r rheilffordd ac yna trowch i'r chwith i ddychwelyd i'ch man cychwyn ym maes parcio'r Orsaf.